Pwy ddylwn ei hysbysu os gwelaf forfil, dolffin, neu forlo ar y traeth?

Yn gyntaf byddai wrth fodd Prosiect Llên Natur i dderbyn eich gwybodaeth a'i hanfon ymlaen i'r sawl sydd yn gallu gwneud y defnydd gorau ohoni.

Os am gysylltu trwy Llên Natur, dyma'r wybodaeth sydd ei angen:

PA FATH O GREADUR welsoch chi yn eich tyb chi?	
Ai BYW ynteu MARW ydoedd?	
YMHLE yn union ydoedd?	
Cyfeirnod grid	
AMGYLCHIADAU ee. cyflwr, math o draeth	
PA BRYD welsoch chi o?	
Eich ENW **Cyfeiriad** **Cod post** **Cyfeiriad ebost** **Rhif(au) ffôn**	

Anfonwch y wybodaeth at Brosiect Llên Natur trwy'r botwm CYSYLLTWCH ar y wefan hon

Neu cysylltwch â'r mudiad dros y DG sy'n delio gyda anifeiliaid wedi eu tirio trwy'r ddolen hon: http://ukstrandings.org/CSIP_leaflet.pdf

I gysylltu ar frys ffoniwch am anifail wedi ei dirio yn fyw neu'n farw ar 0800 6520333

Gwell fyth gwnewch y ddau!

Diolch yn fawr i chi